# YMGYSYLLTIAD CYHOEDDUS
# YSGOL UWCHRADD FITZALAN




STRIDE TREGLOWN

MOTT MACDONALD

**YMGYSYLLTIAD CYHOEDDUS**
PROJECT: YSGOL UWCHRADD FITZALAN

CLEIENT: CYNGOR CAERDYDD
DYDDIAD: TACHWEDD 2018

Ysgolion yr 21ain Ganrif
21st Century Schools

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# YMGYSYLLTIAD CYHOEDDUS
# YSGOL UWCHRADD FITZALAN

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

## Cefndir y Project

Mae'r angen i adnewyddu adeiladau Ysgol Uwchradd Fitzalan wedi'i nodi'n rhan o Raglen Ysgolion Band B yr 21ain Ganrif. Dyma raglen fuddsoddi gwerth £284m, wedi'i hariannu ar y cyd gan Gyngor Caerdydd a Llywodraeth Cymru. Bydd yn adeiladu pum ysgol uwchradd, pedair ysgol arbennig newydd a phedair ysgol gynradd newydd erbyn 2024.

Byddai project Ysgol Uwchradd Fitzalan yn cynnwys rhoi cyfleusterau addysgol modern mewn ysgol newydd sbon. Byddai gan ddisgyblion fynediad at yr amgylchedd dysgu o'r ansawdd gorau. Bydd hyn yn cefnogi addysgu a dysgu.

Byddai hefyd cyfleusterau chwaraeon newydd gwell megis pwll nofio newydd, ardaloedd gemau aml-ddefnydd (MUGA) a mynediad at gaeau pêl-droed a rygbi 3G. Mantais i'r gymuned gyfan.


Byddai mynediad o hyd at gyfleusterau chwaraeon cyfredol. Bydd angen ymgynghori'n fwy ar gyfleusterau ychwanegol.

Ni fyddai capasiti'n newid (1500 o ysgolion 11 i 16 oed yn ogystal â Chweched Dosbarth i hyd at 350 o ddisgyblion).

Yn unol â'r cynigion, lleolir yr ysgol newydd yn Leckwith Road. Byddai'r brif fynedfa'n wynebu Stadiwm Athletau Caerdydd gyda mynedfeydd ychwanegol i ddisgyblion. Mae hyn yn unol â'r strategaeth trafnidiaeth ysgol.

Mae'r cynigion yn y camau cychwynnol a byddai unrhyw ddatblygiad yn amodol ar ganiatâd cynllunio a chymeradwyaeth Cabinet Cyngor Caerdydd.




## Crynodeb Trafnidiaeth

Yn unol ag ymrwymiad y Cyngor i deithio llesol, asesir llwybrau diogel i'r ysgol a nodir gwelliannau yn rhan o'r datblygiad. Bydd y brif fynedfa i gerbydau i'r safle ar gyfer Staff a derbyniadau oddi ar y gyffordd bresennol â goleuadau ar Leckwith Road/y Stadiwm Athletau, gyda mannau mynediad ychwanegol ar gyfer cerddwyr a beicwyr ar amryw leoliadau o amgylch y safle ac oddi ar Lawrenny Avenue. Caiff y mannau mynediad eu dylunio i fod yn ddeniadol i gerddwyr a beicwyr. Rhagwelir y caiff y gwasanaeth bws ysgol presennol ei gadw.

Cwblheir Cynllun Teithio Ysgol ynghyd ag Asesiad Cludiant gan fanylu ar welliannau'r priffyrdd yn rhan o'r broses cais cynllunio.

# YMGYSYLLTIAD CYHOEDDUS
# YSGOL UWCHRADD FITZALAN

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

